BRECON BEACONS NATIONAL PARK



# Sut i adnabod ADAR






# Beth allwch chi ei ganfod?







# Robin Goch



Y robin goch yw un o'r ychydig o adar Prydain sy'n canu gydol y flwyddyn. Mae'n un o'r adar cynharaf i ganu yng nghôr y wig ac yn un o'r rhai diwethaf i ddistewi yn y nos – weithiau mae hyd yn oed yn canu ganol y nos!



# Mwyalchen/Aderyn Du



Mae mwyalchod wrth eu bodd yn torheulo – yn aml maen nhw i'w gweld ar y ddaear gyda'u hadenydd ar led yn yr heulwen gynnes.

# Nico





Mae'r adar lliwgar hyn wrth eu bodd yn bwyta hadau niger neu'n pigo pryfed allan o lysiau'r pannwr ac ysgall.



# Gwennol y Bondo

Mae'r adar medrus hyn yn dal eu hoff fwyd, pryfed yn yr awyr, wrth hedfan.

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

# Siff saff



Mae'r siff saff wedi cael ei henwi o'r sŵn y mae'n ei wneud - allwch chi ei chlywed - siff-saff, siff-saff...

# Drudwy



Mae drudwy yn gallu dynwared synau adar ac anifeiliaid eraill – hyd yn oed synau mecanyddol – mae'r rhain i gyd i'w clywed yn ei chân.

# Dryw




Mae'r dryw yn enwog am nythu mewn mannau rhyfedd megis siediau, tai gwydr ac hyd yn oed mewn poced dilledyn wedi'i olchi yn sychu ar y lein!

# Pioden



Er bod pobl yn meddwl ar un adeg fod piod yn cael eu denu at bethau'n sgleinio, mae tystiolaeth wyddonol yn awgrymu erbyn hyn eu bod, mewn gwirionedd, eu hofn.

Edrychwch yn ofalus ar yr adar yn eich gardd. Allwch chi rhestru, yn yr amlinelliad isod, nodweddion yr adar ydych chi wedi'u gweld yn yr ardd ? Meddyliwch am sut mae'r adar yn symud, yn bwydo ac yn hedfan.



# Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?



Robin Goch





Mwyalchen / Aderyn Du





Nico





Gwennol y Bondo

Siff saff





Drudwy

Y Dryw





Pioden